

Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**Dyddiad:** 17 Mai 2001**Amser:** 2.00pm**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**Presenoldeb:*****Aelodau***

Cynog Dafis, Cadeirydd	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad	Llafur	Pontypridd
Lorraine Barrett	Llafur	De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol	Gogledd Cymru
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Janice Gregory	Llafur	Ogwr
Pauline Jarman	Plaid Cymru	Canol De Cymru
Gareth Jones	Plaid Cymru	Conwy
Huw Lewis	Llafur	Merthyr Tudful a Rhymni
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr	Canol De Cymru

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Chris Reading	Clerc
Holly Pembridge	Dirprwy Clerc

Swyddogion

Richard Davies	Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol
Derek Adams	Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch
Tony Widdrington	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Ymddiheuriadau

Alun Pugh

Dirprwyadau

Christine Chapman

Datganiadau o Fuddiant

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd;
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 23 Mai 2001 fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ar 9 Mai 2001. Pwrpas y cyfarfod fyddai holi'r ddau Weinidog yn fanwl ynghylch y pecyn o fesurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gynorthwyo cymunedau a effeithir gan y diswyddiadau yng ngweithfeydd dur CORUS. Byddid yn cynnal y sesiwn ar y cyd yn Ystafell Bwyllgora 3 a dechreuai am 1.30pm. Neilltuid cyfanswm o 90 munud ar gyfer yr holi hwn.

Cyhoeddodd y Cadeirydd hefyd ei fod, ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 9 Mai 2001, wedi cyfarfod â Mr Phil Gummert o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Pwrpas y cyfarfod oedd adolygu cynnydd. Gofynnodd y Cadeirydd am ganiatâd gan y Pwyllgor iddo ysgrifennu at Brifysgol Cymru i gael eu barn ar y papur a gafwyd gan Addysg Uwch Cymru, a gyflwynwyd mewn cyfarfod cynharach o'r Pwyllgor, a amlinellai eu cynigion ar gyfer clystyru. Hefyd, awgrymodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor y dylai ysgrifennu at Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gyda'r bwriad o ofyn i'r ddau gorff gynhyrchu papur (ar y cyd) ar faterion cyllido a chlystyru, gan y byddai'n fuddiol cael "lleisiau" y sector Addysg Uwch

yng Nghymru yn dod at ei gilydd. Cytunodd y Pwyllgor ar gynigion y Cadeirydd.

Eitem Un: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad: Dysgu Gydol Oes ac Ehangu Mynediad – Yr Arglwydd Dearing

Papur: ELL 09-01(p.1)

1.1 Siaradodd Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil y DU i Addysg 1997, yr Arglwydd Ron Dearing â'r Pwyllgor am faterion Dysgu Gydol Oes ac Ehangu Mynediad. Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau i'r Arglwydd Dearing.

1.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd yr Aelodau i'r Arglwydd Dearing wneud sylw ynghylch y modd y gellid ehangu'r cymhwyster Safon Uwch presennol, yn unol â'r Fagloriaeth Gymreig, gan ei bod yn bosibl y byddai'r cymhwyster Safon Uwch fel y mae yn cymell pobl ifanc i wrthod addysg. Cyfeiriodd yr Arglwydd Dearing at ei bapur a nododd y gydberthynas rhwng amddifadedd cymdeithasol a lefelau isel o gyfranogiad a chyflawniad mewn addysg. Hysbysodd y Pwyllgor ei fod wedi'i wahodd i baratoi adroddiad ar destun cymwysterau Safon Uwch. Disgrifiodd yr Arglwydd Dearing sut yr oedd myfyrwyr/disgyblion yn y DU yn arbenigo mewn tri chymhwyster Safon Uwch ond nad oedd unman arall yn y byd yn canolbwyntio fel hyn. Hysbysodd yr Arglwydd Dearing y Pwyllgor ei fod o blaid hybu ehangder yn y maes cymwysterau hwn – a bod cysyniad cymwysterau Uwch Gyfrannol yn fecanwaith da i gyfuno ehangder. Mewn egwyddor, yr oedd y Fagloriaeth Gymreig yn ffordd dda i hybu ehangder. Fodd bynnag, yr oedd yn rhaid wrth ofal mewn perthynas â derbyniadau i brifysgolion, gan na fyddai staff derbyn ond am wybod a oedd myfyrwyr wedi perfformio'n dda yn eu dewis maes pwnc yn hytrach nag ymddiddori yn ehangder y dewis/darpariaeth o bynciau. Yr oedd y Fagloriaeth Ryngwladol wedi ymladd y frwydr hon eisoes.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod barn yr Arglwydd Dearing ar fater talu ffioedd hyfforddi o flaen llaw a goblygiad hynny wedyn i ehangu sylfaen cymdeithasol Addysg Uwch. Atebodd yr Arglwydd Dearing fod hyn, i raddau, yn fater o egwyddor a hefyd o ymarferoldeb. Yr oedd uned adnodd y prifysgolion wedi'i lleihau. Yr oedd Pwyllgor Ymchwil y DU i Addysg Uwch o'r farn ei bod yn holl bwysig cynnal ansawdd addysg. Yr oedd ar brifysgolion angen ffynhonnell cyllido newydd ac yr oedd Pwyllgor y DU wedi cynnig pedwar neu bum dewis i'r Llywodraeth. Yr oedd y Pwyllgor yn ffafrio ffioedd hyfforddi gan fod teimlad bod y myfyriwr yn elwa ar addysg brifysgol. Yr oedd y rhai nad aent i brifysgol wedi rhoi buddsoddiad cyhoeddus er hynny, felly dylasai myfyrwyr fod yn barod i roi rhyw gyfraniad gan y byddent wedi cael y fantais o dderbyn addysg brifysgol. Yr oedd Pwyllgor y DU yn ystyried bod rhyw ffurf ar hynny yn fath o gyfiawnder cymdeithasol.
- Croesawodd y Gweinidog ehangder papur yr Arglwydd Dearing mewn perthynas â'r sector Addysg Uwch yng Nghymru. Cododd y Gweinidog fater cynigion ffioedd teg Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a gofynnodd i'r Arglwydd Dearing wneud sylw ar y syniad hwn mewn perthynas ag ehangu mynediad. Ymgwymerodd yr Arglwydd Dearing i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Gweinidog mewn perthynas â'r ymholiad hwn.
- Gwnaeth y Gweinidog sylw am waith gwerthfawr y Prifysgolion i Ddiwydiant a gofynnodd i'r Arglwydd Dearing wneud sylw ynghylch y modd y gallai Cymru ddefnyddio system gyflenwi'r Prifysgolion i Ddiwydiant i ehangu mynediad drwy'r holl sefydliadau yng Nghymru. Atebodd yr Arglwydd Dearing y gellid cyrchu tua 70% o'r deunydd cyrsiau (a oedd ar gael yn dameidiau hwylus) drwy'r We ac y gallai unrhyw ysgol, coleg neu brifysgol eu cyrchu. Yr oedd yr holl ddeunyddiau wedi'u gosod ar gytundeb i unigolion yn y sector preifat. Nododd yr Arglwydd Dearing fod y Prifysgolion i Ddiwydiant

wedi cynnig helpu CORUS.

- Cyfeiriodd y Gweinidog at bapur yr Arglwydd Dearing (p.3, 30-32) a gofyn iddo wneud sylw pellach ar ei syniadau ynghylch meithrin cydweithio rhwng sefydliadau a oedd yn seiliedig ar ymchwil yng nghyd-destun prinder adnoddau. Atebodd yr Arglwydd Dearing na chredai y dylid dileu pob elfen o gystadlu. Yr oedd gweithgareddau ymchwil Prydeinig yn defnyddio adnoddau gweddol fach ond yr oeddent wedi cynhyrchu ymchwil o safon fyd-eang er hynny. Ar sail maint y gystadleuaeth a fu, sicrhawyd bod yr arian wedi mynd at y mannau lle y'i defnyddid yn fwyaf effeithiol. Yr oedd y syniad o gonsortia yn un da, gan fod angen canfod cryfderau arbennig y gwahanol sefydliadau ar y cyd â'r dull gweithredu strategol a luniwyd gan y Cyngor Cyllido. Byddai angen cael fframwaith eglur o anogaeth gan y Cyngor Cyllido. Dylid cyfyngu ymchwil er mwyn elwa ar wybodaeth i sefydliadau a ganolbwyntiai ar ymchwil. Gofynnodd Lorraine Barrett a allai'r Arglwydd Dearing ddarparu papur a oedd yn amlinellu cynllun Hull. Ymgwymerodd yr Arglwydd Dearing i wneud hynny.
- Cododd yr Aelodau fater y pryder ynghylch yr hierarchiaeth ganfyddedig o raddau cymeradwy ac anghymeradwy. Bu beirniadu'n ddiweddar ar raddau annhraddodiadol fel Astudiaethau'r Cyfryngau am nad oeddent yn draddodiadol ac felly heb fod mor gymeradwy â graddau eraill. Dymunai'r Aelodau wybod a fyddai dadl am y mathau o raddau a ddyfernid yn hybu mynediad a chymhelliant. Dywedodd yr Arglwydd Dearing fod yr amrediad o wybodaeth yn datblygu'n gyflym. Dylai'r cynnydd hwn mewn gwybodaeth fod yn gyson ag ehangiad yr economi. Yr oedd angen i bobl gael eu cyffroi gan y pynciau a astudiant – yr oedd y cyfryngau'n rhan o fywydau llawer o bobl. Yr oedd er budd i'r myfyrwyr holi'n drylwyr ynghylch pynciau a oedd yn berthnasol i'w hanghenion.

Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Trafodaeth Thema Allweddol – Ansawdd – Cyflwyniadau gan John Randall o'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a'r Athro Mike Scott, ar ran Addysg Uwch Cymru.

Papur: ELL 09-01(p.2) a (p.3)

2.1 Siaradodd John Randall o'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd a'r Athro Mike Scott, ar ran Addysg Uwch Cymru ar thema allweddol Ansawdd. Cyfeiriodd y ddau gyflwynydd at eu papurau.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch yr effaith a gâi cyfundrefn adolygu pynciau newydd yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ar system a oedd eisoes wedi'i gorlethu a sut y gellid ymdopi â hynny. Hysbysodd John Randall y Pwyllgor na ddylai adolygiadau pwnc osod baich ar sefydliadau a gaiff eu rhedeg yn dda eisoes; yr oedd gan bob prifysgol ei dull mewnol o'i werthuso ei hun. Byddai'r adolygiadau pwnc yn defnyddio'r un wybodaeth ag y byddai'r prifysgolion hefyd yn ei defnyddio/gofyn ar gyfer eu prosesau mewnol eu hunain. Yr oedd peryglon os byddai sefydliadau Addysg Uwch yn gorbaratoi ar gyfer yr adolygiadau allanol, yn bennaf oherwydd eu bod yn y maes cyhoeddus. Dylid cael sylfaen o samplu ac o edrych ar yr wybodaeth gyfredol orau ac wedyn penderfynu a ddylid asesu popeth.
- Yr oedd yr Aelodau'n awyddus i wybod a ystyrir sefyllfa'r Sefydliadau Cyfansoddol a'r colegau Prifysgol oddi mewn i Brifysgol Cymru yn amwys ledled y DU ac, os felly, beth oedd y peryglon yn hynny? Dywedodd John Randall mai'r anhawster posibl oedd sicrhau atebolrwydd llawn am safonau ac ansawdd academiaidd. Byddai cyflenwi o bell yn golygu y byddai cadwyn atebolrwydd hwy. Dylai'r

llinellau atebolrwydd fod yn eglur ac nid yn rhy hir.

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod am y goblygiadau o ran Sicrwydd Ansawdd o symud tuag at un o'r modelau arfaethedig ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru: dod â holl sefydliadau Cymru at ei gilydd o dan faner Prifysgol Cymru. Atebodd John Randall y dylai pwy bynnag a oedd yn gyfrifol am fesurau ansawdd gael ei ddal yn gyfrifol yn y modd priodol. Dylai'r mesurau ansawdd hyn fod yn allanol i'r graddau priodol ar bob lefel.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Scott wneud sylw ynghylch a oedd yn credu bod y sefyllfa o amrywiaeth mewn safonau ledled Cymru yn foddhaol ynteu a oedd yn well cael 'safon aur' ledled Cymru. A oedd yn gredadwy i wlad fach ddatblygu 'safon aur' ac yn fanteisiol mewn canlyniad i ddibenion marchnata? Dywedodd yr Athro Scott ei bod yn ofynnol, pan oedd yn gweithio gyda'r CNNA, cwrdd â'r safon ofynnol ar gyfer gradd. Dylai gwledydd bach allu cyflawni'r maen prawf hwn yn eu sefydliadau. Yr oedd hyn yn codi mater swyddogaeth y bwrdd academiaidd ym Mhrifysgol Cymru ac a ddylai fod â chyfrifoldeb ac atebolrwydd academiaidd. Byddai'n rhaid mynnu'r berthynas hon drwy'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd.
- Ailadroddodd a thynnodd y Cadeirydd sylw at ei gwestiwn ynghylch a ganfyddid mai'r un oedd gradd mewn gwahanol sefydliadau yng Nghymru. Dadleuodd John Randall, mewn perthynas â safon ofynnol, y dylid sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban; dylid sefydlu disgrifyddion trylwyr. Byddai'n well dileu graddau Anrhydedd Dosbarth Cyntaf. Yr oedd dosbarthiad gradd 2:1 yn gyfartaledd o'r marciau a dderbynnid. Byddai'n fwy manteisiol symud tuag at system trawsgrifiad a chofnodi cyflawniadau'r unigolyn yn fwy ystyrion.
- Cyfeiriodd yr Aelodau at gyflwyniad Addysg Uwch Cymru ar thema "Maint a Siâp" mewn cyfarfod blaenorol pan gyflwynwyd y cysyniad o "glostyrau". Gofynnodd yr Aelodau i'r Athro Scott wneud sylw ynghylch goblygiadau symudiad o'r fath o ran Sicrwydd Ansawdd. Dywedodd yr Athro Scott fod rhywfaint o bryder o bosibl wrth drafod clystyru'n bartneriaethau strategol mewn rhanbarthau penodol rhag ofn mai ar sail ranbarthol yn unig y byddai'r cydweithio/partneriaethau. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir yng ngogledd Cymru: yr oedd Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a Phrifysgol Cymru. Bangor wedi ffurfio cynghrair strategol effeithiol. Un mater a oedd wedi'i ganfod yn sgil y bartneriaeth hon oedd sut i gynnal ansawdd a gwella ansawdd dau sefydliad a oedd yn gyfartal ac yn gweithio er budd y myfyrwyr.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth oedd y goblygiadau posibl o ran Sicrwydd Ansawdd o'r model 'un wlad, un brifysgol' a gynigid drwy Addysg Uwch Cymru, yn enwedig mewn perthynas â cholegau Prifysgol, sefydliadau heb bŵer dyfarnu graddau a'r gwasanaeth Dilysu. Atebodd yr Athro Scott fod anghysonderau oddi mewn i Brifysgol Cymru: nid oedd colegau cyfansoddol, fel Prifysgol Cymru, Bangor a Phrifysgol Cymru, Aberystwyth yn meddu ar bwerau dyfarnu graddau, ac eithrio Caerdydd, Casnewydd ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Nid oedd gan Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru deitl prifysgol ond yr oedd ganddi bŵer datganoledig fel Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yr oedd angen edrych tua'r dyfodol, gan fod rhanbartholi a phartneriaethau yn digwydd yn Ewrop. Yr oedd yn rhaid i Gymru ofalu na chât ei thrin fel rhanbarth. Byddai'n fanteisiol datblygu strategaeth a dechrau meicnodi â rhanbarthau a oedd yn bartneriaid. Ychwanegodd John Randall fod y dimensiwn Ewropeaidd yn bwysig gan ei fod yn cynnig bygythiad cystadleuol: dysgid nifer fawr o bynciau drwy gyfrwng y Saesneg yn awr mewn prifysgolion Ewropeaidd. Er enghraifft, gellid dysgu Peirianeg drwy gyfrwng y Saesneg; yr oedd sefydliadau Ewropeaidd yn tynnu ar farchnad sefydliadau'r DU. Yr oedd yn rhaid i sefydliadau'r DU gystadlu'n llwyddiannus er mwyn bod cystal â'r safonau yn Ewrop.
- Cododd y Gweinidog y mater mai'r Cynghorau Cyllido, yn ddeddfwriaethol, a ddewisai bwy a gyflawnai'r agenda Sicrwydd Ansawdd. O ganlyniad, a allai Cymru ystyried model newydd i Brifysgol Cymru a datblygu ei Sicrwydd Ansawdd ei hun ac ymhle, felly, y byddai'r cylch gwaith rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyngor Cyllido? Cytunai John Randall fod y cyfrifoldeb statudol dros Sicrwydd Ansawdd yn perthyn i'r Cynghorau Cyllido. Yr oedd yn rhaid bod yn bwylllog os dymunai

Cymru weithredu system Sicrwydd Ansawdd i Gymru'n unig, gan fod gwledydd eraill o faint tebyg i Gymru wedi canfod drwy brofiad fod angen cydweithio ag eraill er mwyn recriwtio adolygwyr a sicrhau safonau tebyg. Er enghraifft, bu cydweithio rhwng gwledydd Llychlyn i ddibenion Sicrwydd Ansawdd/datblygu. Os dilynai Cymru ei llwybr ei hun, fel petai, byddai'n rhaid iddi oresgyn problem y nifer fach o sefydliadau a oedd ganddi. Ychwanegodd yr Athro Scott ei fod yn synnu na fu trafodaethau rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Fodd bynnag, yr oedd gan Addysg Uwch Cymru ffydd yn y dulliau o weithredu Sicrwydd Ansawdd (drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) a'i atebolwydd tryloyw. Yr oedd hyn yn codi mater natur a rôl bwrdd academaidd Prifysgol Cymru.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Scott a allai ymateb i rai o'r cwestiynau a gododd yn ei bapur, (p.3, 5-7) neu, yn wir, a oedd gan Addysg Uwch Cymru amserlen i asesu'r materion hyn. Hefyd, sut yr oedd Addysg Uwch Cymru yn bwriadu mynd â'r ddadl yn ei blaen? Eglurodd yr Athro Scott yr âi yn ôl at Addysg Uwch Cymru a chael adroddiad i'r Cadeirydd. Argymhellodd yr Athro Scott y dylai'r ddeialog barhau rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac Addysg Uwch Cymru gan mai hynny oedd dyfodol y ddadl.
- Holodd yr Aelodau, gan fod y Cynghorau Cyllido unigol yn gwneud cytundeb â'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd iddi gyflawni'r swyddogaeth ar eu rhan, a allai John Randall ymateb i'r feirniadaeth oddi wrth rai o sefydliadau Grŵp Russell (h.y. Ysgol Economeg Llundain), sydd wedi nodi eu bod wedi ystyried ymryddhau o'r cytundeb ar gyfer y broses hon? Dywedodd John Randall fod yr ateb yn cynnwys dwy elfen: un o egwyddor ac un o gyfreithlondeb. Ynghylch egwyddor, dywedodd John Randall ei fod o'r farn na allai'r sector Addysg Uwch ddisgwyl derbyn yr arian a gâi heb ddangos ei wariant. Byddai unigolion bob amser a fynnai atebolwydd ac a ddibrisiai'r gweithrediadau a oedd ar waith. Mewn perthynas ag ymryddhau o'r cytundeb, yr oedd cyrff yn rhydd i 'gerdded allan'. Yr oedd cyfrifoldeb statudol gan y Cynghorau Cyllido – tra oedd yn parhau felly, ni fyddai posibilïad o ddatgan y beirniadaethau hyn gan Grŵp Russell.
- Gofynnodd yr Aelodau pa mor bwysig ydoedd i'r system Sicrwydd Ansawdd a gymhwysid at sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru fod yn debyg neu hyd yn oed yn hollol yr un fath, â honno a geid ledled y DU. Hysbysodd John Randall y Pwyllgor fod Rhwydwaith Asiantaethau Ansawdd Ewrop yn ystyried datblygu mwy o gymharedd ar sail Ewrop gyfan. Ar hyn o bryd, ystyrid y Fframwaith Ansawdd Cenedlaethol yn feincnod briodol.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y câi'r Sicrwydd Ansawdd Academaidd ar gyfer Addysg Uwch mewn Addysg Bellach ei gyflawni yng Nghymru ac a oedd posibilïadau yng Nghymru o gael enillion effeithlondeb tra'n cynnal effeithiolrwydd. Dywedodd John Randall fod yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd yn siarad â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) ynghylch ei gyfrifoldebau. Yr oedd angen priodol i farnu sefydliadau Addysg Uwch yn gyson, gan nad oedd arnynt angen beichiau. Ychwanegodd yr Athro Scott fod prosiect Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru a'r fenter 'clystyru' yn gweithio ar sail effeithlondeb ac ansawdd y ddarpariaeth.

Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyniad Thema Allweddol – Dysgu Cyfrwng Cymraeg – gan Gwilym Humphreys a'r Dr Cen Williams o Fwrdd y Brifysgol dros Ddysgu Cyfrwng Cymraeg a Dafydd Glyn Jones o Brifysgol Cymru, Bangor.

Papur: ELL 09-01(p.4) a (p.5)

3.1 Rhoddodd Gwilym Humphreys (Cadeirydd) a'r Dr Cen Williams (Swyddog Datblygu) o Fwrdd y Brifysgol dros Ddysgu Cyfrwng Cymraeg gyflwyniad ar y cyd ar thema Dysgu Cyfrwng Cymraeg. Siaradodd Dafydd Glyn Jones, (Darllenydd yn y Gymraeg a Llenyddiaeth Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Bangor), hefyd ar yr un thema. Cyfeiriodd yr holl gyflwynwyr at eu papurau.

3.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Gofynnodd y Cadeirydd i ba raddau yr oedd tir cyffredin rhwng safbwyntiau Gwilym Humphreys/Dr Cen Williams a Dafydd Glyn Jones ar fater y posibiliad o symud tuag at Goleg Ffederal Cymraeg. Atebodd Gwilym Humphreys nad oedd syniadau'r Dr Cen Williams ac yntau'n rhy bell oddi wrth rai Dafydd Glyn Jones. Fodd bynnag, y gwahaniaeth sylfaenol yn eu syniadau oedd bod Dafydd Glyn Jones yn gosod targedau ar gyfer y dyfodol a bod Bwrdd y Brifysgol dros Ddysgu Cyfrwng Cymraeg yn ystyried y sefyllfa bresennol ac yn llwyr gredu y gallai Cymru adeiladu ar sail y system bresennol a datblygu o'r adnoddau a oedd ar gael ar hyn o bryd. Yr oedd y nod a osodwyd gan Dafydd Glyn Jones yn un dilys a gallai'r sector Addysg Uwch yng Nghymru anelu at hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, ychwanegodd Gwilym Humphreys na chredai y gellid gwasgu am wireddu syniad Dafydd Glyn Jones o benodi 200 o ddarlithwyr dros y pum mlynedd nesaf yng ngolwg y system gyllido bresennol. At ei gilydd, yr oedd Bwrdd y Brifysgol dros Ddysgu Cyfrwng Cymraeg o blaid y syniad o ffederaleiddio.

Ychwanegodd y Dr Cen Williams iddo gael ei holi'n ddiweddar a gredai yn y syniad o un Coleg Cymraeg a'i ateb oedd "na chredaf". Fodd bynnag, yr oedd ffyrdd Dafydd Glyn Jones o gydweithio a meddwl yn debyg i'w rai ef. Ar sail yr Uned Gefnogaeth, gellid cael cyfle i ddatblygu nifer fawr o ddarlithwyr mewn meysydd lle nad oedd dysgu Cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, yr oedd dysgu Cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig i gyfadranau'r Celfyddydau ac Addysg. Yr oedd llai o ddysgu Cyfrwng Cymraeg yn y meysydd Busnes, Gwyddonol a Phroffesiynol. Cyn sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg, rhaid i Gymru gael nifer ddigonol o ddarlithwyr yn y meysydd Gwyddonol, Busnes a Phroffesiynol i gynnal system gredadwy. Hefyd, yr oedd symudiad at gydweithio drwy'r We/TG yn gam i'r cyfeiriad iawn. Yng Nghynllun Busnes y Bwrdd, crybwyllir yr enw 'Coleg Ffederal'.

Ychwanegodd Dafydd Glyn Jones nad oedd ei farn ef yn cyfateb i un y Bwrdd. Ni ellid cael mäs critigol gyda llai na 200 o ddarlithwyr: byddai angen deg darlithydd yr un mewn oddeutu 20 o bynciau a byddai hyn yn holl bwysig er mwyn cael system gredadwy. Gofynnodd y Cadeirydd i Dafydd Glyn Jones wneud sylw ynghylch a ragwelai gyrraedd mäs critigol dros gyfnod o amser, yn hytrach nag ar unwaith. Atebodd Dafydd Glyn Jones ei fod yn rhagweld hynny'n digwydd dros gyfnod o bum mlynedd. Ychwanegodd ei fod yn benderfyniad anferth i'r Cyngor Cyllido ond byddai awgrym cadarnhaol gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn gymorth i symud y syniadau yn eu blaen.

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth oedd maint y farchnad bresennol ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Dr Williams nad oedd y farchnad ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu ryw lawer dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Wrth ystyried papurau Safon Uwch yr haf diwethaf, dim ond 1800 a gymerwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd dosbarthwyd holiadur i ddosbarthiadau chwech ysgolion Cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (cyfanswm o 52 o sefydliadau). Archwiliwyd 500 o ffurflenni o blith y rhai a ddychwelwyd ac yr oedd 84 y cant o'r myfyrwyr yn dymuno dilyn Addysg Uwch yng Nghymru; yr oedd hynny'n cymharu â 60 y cant tua 10 mlynedd yn ôl. Byddai'r flwyddyn 2003 yn agor lefel weithredol o ddwyieithrwydd yn y 177 o ysgolion eraill nad oeddent yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r farchnad yn cynyddu yn y dyfodol.
- Cododd yr Aelodau y mater o ba un a oedd dysgu electronig yn ateb ymarferol a fforddiadwy a beth y gallai dysgu electronig ei gyfrannu at ddarpariaeth eang o ddysgu Cyfrwng Cymraeg. Dadleuodd y Dr Williams fod pecynnu dysgu electronig yn holl bwysig. Yr oedd cynadledda fideo ar gael mewn prifysgolion ond yr oedd yn hen ffasiwn, gan na allai drosglwyddo cyrsiau. Yr oedd angen dull mwy bywiog a rhyngweithiol o ddysgu/addysgu. Byddau dysgu electronig yn agor y farchnad hon. Ychwanegodd Gwilym Humphreys, wrth ystyried y ffigurau am fyfyrwyr yn gadael ysgolion Cyfrwng

Cymraeg, fod nifer fawr o fyfyrwyr yn dymuno mynd i'r prifysgolion yng Nghaerdydd ac Abertawe. Fodd bynnag, nid oedd y sefydliadau hyn yn cynnig unrhyw fodiwlau/cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffai'r Bwrdd weld cynnig darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yn y colegau hyn.

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a ellid cynnal y lefel ofynnol o ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg heb gyllid ychwanegol (o ystyried y nifer fawr o alwadau ar adnoddau Addysg Uwch) ac os na ellid, pa lefel o gyllid y byddai ei hangen yn ymarferol? Dadleuodd y Dr Williams o blaid yr angen am fwy o gyllid datblygu. Ar hyn o bryd, yr oedd dwy ffrwd ar gyfer cyllid Cyfrwng Cymraeg: premiwm o 1.26% ychwanegol y pen ar gyfer y myfyrwyr hynny a ddilynai gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ac yr oedd ffrwd gyllido arall ar gael oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer datblygu mewn addysg Cyfrwng Cymraeg. Yr oedd yn rhaid dal ar rai cyfartal ag amser llawn o flynyddoedd blaenorol er mwyn elwa ar y cyllid. Âi'r holl gyllid at chwe sefydliad, yn cynnwys Coleg y Drindod (Caerfyrddin), Prifysgol Cymru, Bangor, Prifysgol Cymru, Aberystwyth ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Nid oedd Prifysgol Cymru, Caerdydd yn derbyn dim o'r cyllid hwn, nac Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru ychwaith. Yr oedd 1600 o fyfyrwyr Cymraeg a fynychai Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Caerdydd. Yr oedd angen cyllid hefyd i helpu i sefydlu'r Uned Gefnogaeth yr oedd y Bwrdd yn ei chynnig. Dywedodd Dafydd Glyn Jones yr hoffai weld Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cytuno i gyllido'r Coleg Ffederal Cymraeg, yn ôl yr un egwyddor ag a ddilynid yn draddodiadol wrth gyllido gwasanaethau canolog, e.e. Gwasg y Brifysgol a Gregynog. Dylai'r Coleg Ffederal Cymraeg gael ei gyllido'n annibynnol ac yn ganolog.
- Nododd Huw Lewis wrth y Cadeirydd fod ganddo rai sylwadau i'w cyfeirio i Dafydd Glyn Jones ynghylch y papur a gyflwynodd i'r Pwyllgor (p.5). Nid oedd Huw Lewis yn sicr a oedd y papur i fod yn ysmala ac yn eironig ynteu a oedd o ddifrif. Os oedd o ddifrif yna, yn ei farn ef, "*nid oedd o'r cyfryw safon fel y gallai'r Pwyllgor ei ystyried*". Mynegodd Huw Lewis bryder fod y papur, yn ei farn ef, yn cynnwys isleisiau rhywiaethol ac estrongasaol a chyfeiriodd at rai ymadroddion yn y papur. "*Rhagwelaf dri chategori o gymrodoriaethau...*" (t.13, paragraff 5.3) a "*Byddai'r Saeson ym Mhrifysgol Cymru yn gynddeiriog...*" (t.21, ail baragraff) – a oedd hyn yn golygu rhai o dras Seisnig neu rai Saesneg eu hiaith? Yr oedd cyfeiriadau at "*ddefaid a geifr*", "*byddai'n didoli peth ar y defaid a'r geifr ...*", (t.17, paragraff 8.4) a ddehonglai Huw Lewis i olygu, "*siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg*".

Hefyd, yr oedd Huw Lewis yn bryderus ynghylch cynnig sefydliad elitaidd gan Dafydd Glyn Jones: "*ar yr un pryd, feithrin élite cenedlgarol Cymreig ...*" (t.6, paragraff 2.1) a "*Ein hangen erioed fel pobl yw dosbarth llywodraethol brodorol, sefydlog, hunanbarhaol. Boed inni wynebu mai hon yw problem ganolog Cymru heddiw ...*" (t.21, trydydd paragraff).

Atebodd y Cadeirydd iddo benderfynu fel Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ei bod yn briodol i'r Pwyllgor ddarllen a derbyn y papur gan fod Dafydd Glyn Jones yn dadlau dros y syniad o Goleg Ffederal Cymraeg ers blynyddoedd lawer. Nododd Huw Lewis wedyn nad oedd papur Dafydd Glyn Jones yn ddogfen a oedd yn rhydd oddi wrth ddyfarniadau gwerth. Cynigiodd gynnis y dylai'r Pwyllgor ddileu Papur Pump (papur Dafydd Glyn Jones) oddi ar y cofnod a pheidio â'i ystyried. Hysbysodd y Cadeirydd Huw Lewis wedyn nad oedd yn barod i dderbyn y cynnig hwn y pryd hynny a dymunai barhau â holi'r cyflwynwyr. Ychwanegodd y Cadeirydd y buasai'n well ganddo pe byddai Huw Lewis wedi mynegi ei fwriad i gynnis cynnig i ddileu Papur Pump, neu i'r Pwyllgor beidio â'i ystyried, cyn y cyfarfod. Byddai'r Cadeirydd yn trafod y mater hwn gyda Huw Lewis a'r Clerc y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor a gallai Huw Lewis godi'r cynnig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Dywedodd Dafydd Glyn Jones fod yn rhaid i rywun fod yn eironig wrth drafod Prifysgol Cymru am ei bod, yn ei farn ef, yn sefydliad amwys a chomig. Derbyniai Dafydd Glyn Jones y gellid ystyried ei bapur yn eironig ond ni dderbyniai fod ei bapur yn ysmala. "*Nid oedd yr un gair nas llefarwyd o ran gofal am*

anrhydedd y wlad (Cymru)"; "os yw'r papur yn wleidyddol annerbyniol nid oes dim y gallaf ei ddweud...nid ewch i unman yng Nghymru heb siglo'r cwch..."

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth y dylid ei wneud i sicrhau y gellid darparu digon o ddeunyddiau Cyfrwng Cymraeg. Hysbysodd y Dr Williams y Pwyllgor fod llawer o agweddau yr oedd angen eu hystyried mewn perthynas â'r gwaith a fyddai'n digwydd yn yr Uned Gefnogaeth. Yr oedd angen arbenigwyr mewn terminoleg er mwyn cyfieithu gwaith academwyr i'r Gymraeg, os oedd yn berthnasol. Yr oedd angen cyfieithu'r prif bethau y byddai ar fyfyrwyr eu hangen i ddilyn cyrsiau'n effeithiol ac yn llwyddiannus. Ychwanegodd Dafydd Glyn Jones, "*na fyddai llyfrau yn eu hysgrifennu eu hunain, yr oedd angen pobl, ac felly'r awgrym o 200 o athrawon/darlithwyr fel màs critigol*".
- Llongyfarchodd y Gweinidog Brifysgol Cymru a Phrifysgol Morgannwg am roi arian i'r Uned Ddatblygu. Cododd y Gweinidog sawl mater. Gofynnodd y Gweinidog i gyflwynwyr y Bwrdd wneud sylw ar y ffaith bod yn rhaid i'r sector weithredu ar sail cyflenwad/galw. Gofynnodd y Gweinidog i'r Bwrdd hefyd a allent ddarparu cynigion cyllido/prisiadau rhesymol i'r Pwyllgor am ehangu'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg bresennol yng Nghymru gan y byddai'n ddefnyddiol ar gyfer Adolygiad Addysg Uwch y Pwyllgor. Yr oedd y Gweinidog yn derbyn hefyd na ellid cymryd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Abertawe. Felly, yr oedd o ddiddordeb i'r Gweinidog wybod sut y gallai dysgu o bell fod o gymorth i ehangu'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Hefyd, gofynnodd y Gweinidog i'r Dr Williams a Gwilym Humphreys wneud sylw ar faterion cydraddoldeb asesu, drwy arholwyr allanol dwyieithog. Atebodd y Dr Williams nad oedd y sector wedi ymateb i'r galw yng Nghymru; yr oedd nifer o fyfyrwyr dosbarth chwech wedi troi at gyrsiau Saesneg am nad oedd cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar gael. Yr oedd angen ymestyn y galw er mwyn sicrhau Cymru ddwyieithog. Ychwanegodd y Dr Williams y byddai'r Bwrdd yn ystyried cynigion cyllido ac y byddai'n troi at y Cyngor Cyllido am arweiniad. Gofynnodd y Dr Williams erbyn pa bryd y byddai angen yr amcanestyniadau hyn a pha gyfnod y byddent yn ei gynnwys. Atebodd y Gweinidog y byddai'r Pwyllgor yn disgwyl creu gweledigaeth dros gyfnod o ddeng mlynedd ac y byddai angen yr amcanestyniadau mewn pryd ar gyfer yr Adolygiad; cynghorodd y Dr Williams i siarad â Chynghorydd Arbenigol y Pwyllgor, yr Athro Les Hobson. Ychwanegodd Gwilym Humphreys fod y Dr Williams yn ei swydd ers mis Medi diwethaf ac yr oedd mater cyllido wedi bod ar agenda'r Bwrdd. Ymatebodd y Dr Williams hefyd i gwestiwn y Gweinidog ar gydraddoldeb asesu. Rhaid bod system ar waith ar hyn o bryd, gan fod nifer o fyfyrwyr yn dewis ateb eu papurau arholiad a'u traethodau estynedig yn y Gymraeg. Cyfieithid y rhain i'r Saesneg wedyn at ddibenion asesu. Yr oedd arbenigedd mewn dwy brifysgol yng Nghymru eisoes: byddai cyfieithwyr academiaidd yn sylwi ar unrhyw fanylion mewn safon ac unrhyw amwysedd. Yr oedd yn fwriad gan y Dr Williams alw ar yr holl gyfieithwyr ym Mehefin i ddyfeisio system lle y byddai un sefydliad yn gyfrifol am gyfieithu academiaidd ac wedyn am Sicrwydd Ansawdd.
- Hefyd cododd y Gweinidog fater meysydd o brinder mewn disgyblaethau Cymraeg, h.y. Seicolegwyr Addysgol a Therapyddion Iaith a Lleferydd. Gofynnodd a allai'r Uned Ddatblygu ystyried dulliau o annog pobl i gyflawni'r swyddogaethau hyn a helpu'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei agenda statudol o wireddu Cymru ddwyieithog. Dywedodd y Dr Williams y byddai'r Bwrdd yn ystyried y mater hwn yr wythnos nesaf pan fyddai pum disgyblaeth feddygol, gan gynnwys therapi lleferydd, yn cael eu trafod/cynrychioli mewn cynhadledd yng Ngregynog.
- Gofynnodd Janice Gregory am gael ei chynnwys yn nhrafodaeth y Cadeirydd â Huw Lewis a'r Clerc y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor. Gofynnodd Janice Gregory hefyd i'r Dr Williams am farn Addysg Uwch Cymru am bapur Dafydd Glyn Jones. Dywedodd y Dr Cen Williams na allai ateb y cwestiwn hwn, gan nad oedd yn aelod o Addysg Uwch Cymru.
- Mynegodd Janice Gregory ei chefnogaeth i sylwadau Huw Lewis ynghylch papur Dafydd Glyn Jones ac yn arbennig y cyfeiriad at anrhydedd y Gymraeg. Gan i Janice Gregory ddatgan iddi gael ei geni yng Nghymru, yr oedd yn cael ei thramgwyddo gan yr awgrym mai siaradwyr Cymraeg o dras

Gymreig a feddai ar anrhydedd Cymru yn bennaf. Cyfeiriodd Janice Gregory hefyd at sylwadau Dafydd Glyn Jones ynghylch gostwng niferoedd y myfyrwyr, "*Os yw Prifysgol Cymru ... mae'n rhaid iddi gael y niferoedd i lawr, drwy godi'r gofynion ...*" (t.6-7, paragraff 2.2). Dadleuai Janice Gregory na ellid gwarantu y byddai'r rhai (yr *elite*) a addysgid yng Nghymru yn aros yng Nghymru ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Holodd Janice Gregory hefyd a oedd Dafydd Glyn Jones yn gofyn i'r Pwyllgor anfon neges at bobl Cymru nad oedd modd cael addysg yn unman yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebodd Dafydd Glyn Jones ei bod yn wir nad oedd yn bosibl gwarantu y byddai'r rhai a addysgid yng Nghymru yn aros yng Nghymru o'r herwydd. Gwrthbrofodd y syniad ei fod wedi tynnu llinell rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. Am leihau niferoedd y myfyrwyr, yr oedd nifer y myfyrwyr yn rhy fawr i ddechrau system arholi gyffredin. Y ffaith amdani oedd bod maint Prifysgol Cymru ymhell y tu hwnt i'r galw o Gymru. Ychwanegodd y Dr Williams ei fod wedi cyfeirio'n gynharach yn y drafodaeth at nifer o gyfadranau a oedd yn darparu cyrsiau/modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg: yr oedd rhai cyfadranau Addysg, rhai cyfadranau Hanes a rhai adrannau Cerdd yn cynnig rhyw fath o ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oedd y ddarpariaeth hon yn ymestyn i'r cyfadranau Busnes, Gwyddoniaeth a Phroffesiynol ac yr oedd angen cynnwys y cyfadranau hyn yn y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg. Yr oedd Coleg Meddygaeth Cymru wedi cyflwyno rhai modiwlau cyfathrebu yn y Gymraeg yn ddiweddar ar gyfer y myfyrwyr hynny a oedd yn dymuno mynd yn feddygon. Ychwanegodd Gwilym Humphreys ei fod yn obeithiol bod tir newydd yn cael ei dorri drwy brosiectau a gyllidwyd gan y Bwrdd, wrth geisio cynnwys meysydd pwnc lle na fu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg erioed; yr oedd angen hyblygrwydd er mwyn ymateb i'r galw.

- Cododd y Cadeirydd ddau fater. Yn gyntaf, yng ngolwg y ffaith bod prifysgolion y tu allan i Brydain yn defnyddio'r Saesneg fel cyfrwng dysgu (yn enwedig yn y Gwyddorau), a oedd hyn yn codi amheuan ym meddwl y cyflwynwyr ynghylch hybu dysgu Cyfrwng Cymraeg mewn meysydd Gwyddonol? Yn ail, gofynnodd y Cadeirydd i Dafydd Glyn Jones a oedd yn rhagweld y byddai myfyriwr a gofrestrwyd yn y Coleg Ffederal Cymraeg yn dod yn aelod llawn o'r coleg os astudiai gyfran fach drwy gyfrwng y Gymraeg. Dewisodd Dafydd Glyn Jones ateb yr ail gwestiwn. Dywedodd fod dadl y dylai rhywun sydd yn dilyn rhyw gyfran o'i astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ddod yn gymwys i fod yn aelod o'r Coleg Ffederal Cymraeg. Dywedodd Dafydd Glyn Jones mai, "*y duedd ym mhobman oedd bod yn Saesneg yn ieithyddol; tuedd arall oedd bod gwledydd yn cicio'r Saeson allan yn wleidyddol ond yn mabwysiadu'r iaith*". "*Yr ydym oll yn perthyn i ynys Prydain ond bydd ein tynged hanesyddol ni (y Cymry) yn wahanol i'r Saeson*".
- Mynegwyd pryder gan yr Aelodau fod diffyg dilyniant rhwng ysgolion a'r sector Addysg Uwch; hefyd ni allai plant/myfyrwyr barhau â'u haddysg mewn Addysg Bellach/Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Atebodd y Dr Williams fod angen edrych ar y sector Addysg Bellach hefyd. Y ffigur diweddaraf oedd 2.6%, felly yr oedd lle i symud. Dadleuodd y gallai'r Uned Gefnogaeth wasanaethu'r ddau sector gyda'i gilydd a gwasanaethu'r cwbl o'r sector Ôl-16 yng Nghymru. Yr oedd y ddau sector ar wahân ar hyn o bryd o ran Cyllido ac Atebolrwydd.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd rhywbeth y gallai'r Pwyllgor ei wneud i sicrhau sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg. Gofynnodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr nodi a oeddent yn disgwyl i'r Cyngor Cyllido, Prifysgol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ymateb i'r fenter hon. Atebodd Dafydd Glyn Jones, "*yr hoffai weld pethau'n digwydd ar yr un pryd*". Hoffai weld sefydlu gweithgor gwirfoddol – pwyllgor ffederal trawsgolegol. Byddai'n fanteisiol pe byddai'r Pwyllgor yn cynnwys y syniad hwn yn eu hadroddiad ar yr adolygiad hwn ac yn ei ddwyn i sylw'r Cyngor Cyllido. Ychwanegodd y Dr Williams fod papurau manylach gan y Bwrdd, rhai ohonynt yn amlinellu Marchnata/Datblygu'r Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dysgu o Bell. Atebodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn y papurau fel cyflwyniadau ysgrifenedig.
- Dwedodd y Gweinidog "Ymhellach i gwestiwn Huw Lewis, credaf fod mater y byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ei ystyried gyda'r Clerc, ynghylch addasrwydd yr iaith mewn papurau sy'n dod i'r Pwyllgor hwn. Mae'r drafodaeth sydd newydd ddigwydd yn golygu na allwn gynnal trafodaeth ddilys

ynghylch rhinweddau coleg ffederal oherwydd y ffordd y mynegwyd y teimladau; ac rwyf o'r farn, yn nhermau papurau'n dod i'r Pwyllgor hwn, ei fod yn ddibynnol ar berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Clerc i edrych ar y math o iaith a ddefnyddir mewn papurau i'r Pwyllgor hwn, oherwydd byddwn i'n awgrymu bod y papur a roddwyd i ni heddiw yn nhermau'r cyflwyniad yn dderbyniol mewn ffordd mae arnaf ofn nad oeddwn [fel aelodau eraill o'r Pwyllgor hwn] yn teimlo bod rhai o'r cyfraniadau yn y papur a roddwyd i ni i'w ddarllen cyn y cyfarfod yn dderbyniol, ac rwy'n credu bod angen i ni fod yn fwy gofalus o hynny yn y dyfodol o ran sicrhau nad oes agweddau y gallai Aelodau eu hystyried yn amhriodol o ran y ffaith eu bod yn dod gan berson sydd yno i gynnig cyngor arbenigol i'r Pwyllgor ac nid yw'r sefyllfa hon wedi codi o'r blaen mewn unrhyw un o'r cyflwyniadau yn ymwneud â'r Adolygiad o Addysg Uwch".

Eitem Pedwar: Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001, i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Papur: ELL 09-01(p.6)

4.1 Yr oedd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 5.6, wedi cyfeirio'r rheoliadau drafft hyn i'r Pwyllgor – gyda chyfrifoldeb i adrodd yn ôl erbyn 29 Mai. Yr oedd y papur yn cynnwys y rheoliadau drafft, memorandwm eglurhaol a nodyn ar bwysigrwydd y Rheoliadau a phwerau'r Pwyllgor. Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i wneud sylwadau ar y rheoliadau drafft.

4.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi synnu pan drosglwyddwyd y rheoliadau i'r Pwyllgor, gan eu bod wedi mynd allan ar gyfer ymgynghori ac yr oedd y rhan fwyaf o sylwebyddion wedi'u croesawu. Yr oedd pum niwrnod ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer cyfieithu. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ei fod yn ddiolchgar am ei sylwadau.
- Gofynnodd Pauline Jarman pam nad oedd y rheoliadau wedi'u rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2001, yn hytrach nag 1 Awst 2001. Atebodd y Gweinidog ei bod yn briodol bod y rheoliadau'n mynd gerbron y Cyfarfod Llawn. Hefyd, yr oedd tymor y colegau Addysg Bellach yn dechrau ar 1 Awst 2001.
- Mynegodd Gareth Jones bryder nad oedd y Pwyllgor wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Dywedod y Gweinidog fod Estyn yn ymgynghori ar y cylch arolygu nesaf ar gyfer 2004. Byddai rhan i'r Pwyllgor yn y broses honno.

Cymeradwydd y Pwyllgor y rheoliadau drafft a'r nodyn eglurhaol.

Eitem Pump: Cofnodion cyfarfod 9 Mai

Papur: ELL 08-01(mins)

Cadarnhaodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol: 9 Mai 2001.

Papur i'w Nodi: Cynigion diwygiedig ar reoli perfformiad i athrawon, yn cynnwys rheoliadau drafft.

Papur: ELL 09-01(p.7)

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2001